

yr Athro

Pleidleisiwch!

Rhwng 20 Chwefror a 13 Mawrth, bydd gan aelodau UCAC sy'n ddarlithwyr yn y sector Addysg Bellach gyfle i bleidleisio mewn balot ynghylch llwyth gwaith.

Mae'r balot yn gofyn i aelodau a ydynt **yn barod i gymryd rhan mewn diwrnodau streic cynyddol** gyda'r bwriad o leihau oriau dysgu wythnosol a chynyddu'r gyfran o amser paratoi a marcio fesul awr o ddysgu.

Mae'r mater dan sylw wedi bod yn bwnc llosg yn y sector ers amser. Am y rheswm hynny,

mae'r balot yn un a drefnir ar y cyd rhwng UCAC a UCU.

Byddwn yn trefnu cyfarfodydd dros yr wythnosau i ddod, ar y cyd gyda UCU, yn y colegau hynny ble mae trwch ein haelodaeth, i annog aelodau sy'n ddarlithwyr i bleidleisio – a hynny dros weithredu diwydiannol.

O ganlyniad i ddeddfwriaeth gan Lywodraeth San Steffan yn 2016, bydd angen i o leiaf 50% o'r aelodau cymwys bleidleisio i'r canlyniad fod yn ddilys – felly peidiwch colli'ch cyfle.



Colli Siân



Yn Rali'r TUC 'Dyfodol sy'n Gweithio' (Llundain, 2012)

Yn niwedd 2019 bu i UCAC gollu un o'r haelodau ffyddlonaf, Siân Eira Cadifor.

Roedd Siân yn weithgar tu hwnt gydag UCAC ar lefel lleol a chenedlaethol ac yn gryf ei hymrwymiad i egwyddorion sylfaenol yr Undeb.

Yn athrawes gynradd trwy gydol ei gyrfa roedd ganddi gonsym am addysg y disgyblion ac hefyd dros sicrhau lles athrawon yn ogystal ag awydd i weld Cymru'n llwyddo a'r Gymraeg yn ffynnu.

Bu'n Ysgrifennydd Sir yn Rhondda Cynon Taf am flynyddoedd gan gynrychioli'r Sir ar y Cyngor Cenedlaethol ac roedd yn aelod o sawl pwyllgor o fewn yr Undeb gan gynnwys yr Adran Gydraddoldeb.

Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys gyda'i theulu a'i ffrindiau.



Yn annerch y Gynhadledd Flynyddol (Gwesty'r Celt, Caernarfon, 2010)



Gydag Adran Gydraddoldeb UCAC (Aberystwyth, 2013)

Brics i Batagonia

Efallai y bydd rhai ohonoch yn cofio'r ymgyrch 'Brics i Batagonia' pan gasglwyd miloedd tuag at adeiladu Canolfan Gymraeg yn Esquel.

Agorwyd y Ganolfan honno yn 2002 ac mae'n cael ei defnyddio'n ddyddiol gan drigolion y dref.

Wrth i Hazel Charles Evans, oedd yn aelod o UCAC, ymweld ag Esquel yn 2015, adeg dathlu'r 150 o flynyddoedd ers sefydlu'r Wladfa, fe ddaeth i'r amlwg fod angen estyniad i'r Ganolfan a bod galw am ddwy ystafell ddosbarth a llyfrgell fechan. Erbyn hyn mae'r prosiect hwnnw wedi'i gwblhau.

Y cam nesaf yw adeiladu llety teilwng ar gyfer athrawon a benodir o dan y Cynllun Dysgu Cymraeg neu wirfoddolwyr o



Y ddwy ystafell ddosbarth a ychwanegwyd yn 2015 – ar eu hanner, ac wedi cwblhau

Gymru fyddai'n gallu cynnig gweithgareddau amrywiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dywed Hazel, "Un ystafell fechan yn unig yw llety'r athro presennol lle mae'n gorfod bwyta, cysgu, byw a gweithio. 'Dyw hyn ddim yn dderbyniol yn fy marn i. Mae angen estyniad... ystafell wely ar wahân ac ystafell ymolchi newydd."

Mae Hazel wedi sicrhau addewid o £20,000 gan fusnes lleol ar yr amod y gellir dyblu'r swm hwnnw!

Mae'n gwahodd aelodau UCAC i anfon unrhyw gyfraniad, boed fach neu fawr, i'r cyfeiriad isod os gwelwch yn dda. Llais yr Andes, 24 Caeffynnon, Llandybie, RHYDAMAN, Sir Gâr SA18 2TH

Gwneler pob sic eic yn daladwy i: APÊL ESQUEL

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Julia James

Is-Lywydd: Eirlys Edwards

Ysgrifennydd Cyffredinol: Dilwyn Roberts-Young

Cydylynydd Yr Athro: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidiwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950, ucac@ucac.cymru, www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.



Cynhadledd Flynyddol UCAC 27-28 MAWRTH 2020

**GWESTY CWRT
BLEDDYN**
Brynbuga, Sir Fynwy

Bydd Cynhadledd Flynyddol UCAC yn cael ei chynnal yng ngwesty Cwrt Bleddyn, Brynbuga eleni ar 27-28 Mawrth.

Mi fydd yn gynhadledd arbennig wrth i ni ddathlu pen-blwydd UCAC yn 80 mlwydd oed.

Rydym yn eich annog i fynychu eich Cynadleddau Sir er mwyn cyflwyno cynigion i'r Gynhadledd – dyma'ch cyfle i newid cyfeiriad byd addysg Cymru!

Yn ogystal â thrafod cynigion, bydd nifer o ddigwyddiadau arbennig:

- Trafodaeth banel: **Addysg Gymraeg yn y De-ddwyrain** (gyda Chomisiynydd y Gymraeg, Aled Roberts; Elin Maher (Rhieni dros Addysg Gymraeg); a Jamie Hallett (Pennaeth Gweithredol Ysgol Bro Sannan, Caerffili)
- Trafodaeth banel: **Lles athrawon** (gydag Iwan Brioc (hyfforddwr Meddwlgarwch mewn Ysgolion), Aeron Rees (Pennaeth Cwricwlwm a Lles, Cyngor Sir Gâr) a Sarah Williams (athrawes â chyfrifoldebau lles meddyliol, Ysgol Cwm Rhymni)
- Adloniant gyda'r nos gyda **Mei Gwynedd** sy'n enw cyfarwydd a blaengar ers dros 25 mlynedd fel cyfansoddwr a

pherfformiwr gyda'r bandiau Beganifs, Big Leaves, The Peth, Endaf Gremlin ac yn fwy diweddar fel gitarydd gyda Geraint Jarman ac Elin Fflur

- **Cinio dathlu** gyda chyn-Lywyddion, cyn-Ysgrifenyddion Cyffredinol a chyn-aelodau staff yn bresennol – **i ddadorchuddio rhywbeth arbennig...**

Os nad ydych wedi bod i Gynhadledd UCAC o'r blaen – dewch da chi! Mae'n brofiad arbennig ac yn gyfle i gwrdd â chyd-aelodau ar draws Cymru.

Mae UCAC a Sir Fynwy yn barod iawn i'ch croesawu chi i Frynbuga!



Mei Gwynedd

Siarter Llwyth Gwaith Cenedlaethol

Mae trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth Cymru, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, awdurdodau lleol, y consortia rhanbarthol a'r undebau addysg ar lunio Siarter Llwyth Gwaith cenedlaethol a 'toolkit' i gyd-fynd â hi.

Nid yw geiriad y Siarter wedi'i bennu eto. Mae'r undebau'n poeni bod y gwaith yn cael ei ruthro ar draul cael y cynnwys yn gywir, ac yn pwyso i sicrhau bod ymrwymadau ystyrion yn cael eu gwneud gan bob partner fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i lwyth gwaith athrawon – ac nid geiriau pert yn unig.

Un o brif alwadau UCAC yw ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru (a chyfrif perthnasol eraill) i gynnal Asesiad Llwyth Gwaith ar bob polisi newydd a gyflwynir i'n hysgolion gan gynnwys argymhellion ynghylch sut i leihau ar y gofynion newydd neu ar ofynion cyfatebol oedd eisoes yn eu lle.

Tâl ac Amodau Gwaith Athrawon

Dyma ddiweddiariad i chi ynghylch y broses o bennu tâl ac amodau gwaith athrawon ar gyfer y flwyddyn 2020-21.

Mae rhywfaint o oedi wedi bod wrth bennu'r Cylch Gwaith ar gyfer Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (IWPRB). Mae hyn yn golygu eu bod yn hwyrach yn y flwyddyn yn dechrau ar eu trafodaethau nag oedd wedi'i ragweld.

Y drefn yng Nghymru yw bod trafodaeth rhwng Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol (fel y cyflogwyr) a'r undebau addysg ar gynnwys y Cylch Gwaith – gyda'r Gweinidog Addysg yn gwneud y penderfyniad terfynol ar sail y trafodaethau.

Y maen tramgwydd sydd wedi peri oedi eleni yw bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn benderfynol bod angen i'r Corff ystyried 'fforddiadwydd' wrth lunio'u hargymhellion. Mae'r undebau a'r cyflogwyr wedi gwrthwynebu hynny'n chwyrn ar sail y ddadl y dylai'r Corff wneud yr argymhellion sy'n briodol i'r proffesiwn ac mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw penderfynu a ydynt yn fforddiadwy o fewn eu cyllidebau wrth benderfynu p'un ai derbyn yr argymhellion ai peidio a sut i'w gweithredu.

Disgwylir i'r Cylch Gwaith gael ei gyhoeddi'n fuan iawn.

Adnoddau • Adnoddau • Adnoddau

Ydych chi'n chwilio am adnoddau, gweithgareddau a syniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd? Mae gwefan Adnoddau Addysgol CBAC yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau i gefnogi cymwysterau newydd.

Ewch at <http://adnoddau.cbac.co.uk> i gael mynediad rhad ac am ddim at yr adnoddau sydd yno ar eich cyfer.

Dyma rai enghreifftiau o'r llu o adnoddau newydd sydd ar y wefan:



CA3/4/5: Daearyddiaeth: Cylchgrawn Daearyddiaeth Newydd CBAC

Mae cylchgrawn Daearyddiaeth newydd CBAC bellach ar gael i'w lawrlwytho. Mae nifer o erthyglau i gefnogi addysgeg amrywiaeth o destunau gwahanol, gan gynnwys tywydd a hinsawdd, defnyddio trafodaeth er mwyn datblygu cwestiynau cymhwyso a defnyddio modelau wrth ddylunio gwaith maes.



CA5: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

Mae'r adnoddau hyn wedi'u cynllunio i ddatblygu sgiliau ysgrifennu traethawd myfyrwyr Llywodraeth a Gwleidyddiaeth Lefel A drwy ddarparu adnoddau i'w defnyddio ar-lein ac all-lein yn annibynnol ac yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r adnoddau'n seiliedig ar y syniad o adnabod cydrannau traethawd da ac yna ystyried sut y gellir cyflawni pob un o'r elfennau hyn.




CA4: Cerddoriaeth: Termau Cerddorol

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys profion amlddewis ar dermau cerddorol ar gyfer TGAU Cerddoriaeth. Caiff y cwestiynau eu cyflwyno mewn setiau o 10; bydd y canlyniadau'n cael eu darparu wedi iddynt gwblhau'r cwestiynau. Os bydd cwestiynau yn cael eu hateb yn anghywir, byddant yn cael eu hailgyflwyno er mwyn caniatáu ail gyfle.



CA5: Seicoleg

Llyfr Seicoleg newydd sbon! Mae'r llyfr yn addas i ddysgwyr o bob gallu, ac mae'n rhoi sylw i'r sgiliau y bydd angen i ddysgwyr eu datblygu wrth iddynt ddilyn y cwrs. Os ydych chi am brynu copi o'r llyfr hwn anfonwch e-bost at adnoddau@cbac.co.uk.



CA4/5: Astudiaethau Crefyddol: Cylchgrawn 'REconnect', Rhifyn 4

Dyma bedwerydd rhifyn ein cylchgrawn Astudiaethau Crefyddol hynod boblogaidd 'REconnect'. Mae'r rhifyn hwn yn llawn gwybodaeth gan gynnwys dyddiadau pwysig 2019/20 ac erthyglau sy'n ysgogi'r meddwl i gefnogi cyrsiau TGAU a Lefel UG/U.



Dyma rai o'r adnoddau sydd ar y gweill ar hyn o bryd:

- Cerddoriaeth
- Daearyddiaeth
- Electroneg
- Hanes

Dilynwch adnoddau addysgol CBAC ar [@adnoddau_cbac](https://twitter.com/adnoddau_cbac)



Cwrdd â'r Gweinidog

Ar 10 Mawrth, bydd Swyddogion UCAC yn cwrdd â'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AC.

Dyma'r materion fydd ar yr agenda:

Materion tâl ac amodau gwaith

- Athrawon cyflenwi
- Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Athrawon di-gymhwyster
- Llwyth gwaith

Cwricwlwm i Gymru

- Amser digyswllt ar gyfer cydgyllunio
- Y dimensiwn Cymreig a chontinwrm y Gymraeg
- Y Gweithlu cyfrwng Cymraeg

Ariannu ysgolion

Cludiant ysgol/ôl-16

Os oes gennych chi unrhyw wybodaeth yr hoffech ei anfon atom ynghylch y materion uchod, mae croeso i chi wneud hynny: rebecca@ucac.cymru